

Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

HSS-20-02(min)

COFNODION

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2002

Amser: 9.00am hyd 12.10pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn bresennol: **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Kirsty Williams
(Cadeirydd)

Brycheiniog a Sir Faesyfed

Geraint Davies

Rhondda

Jocelyn Davies

Dwyrain De Cymru

Brian Gibbons

Aberafan

Jane Hutt (Gweinidog)

Bro Morgannwg

Ann Jones

Dyffryn Clwyd

Dai Lloyd

Gorllewin De Cymru

David Melding

Canol De Cymru

Lynne Neagle

Tor-faen

Yn bresennol

Hugh Gardner

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau
Cymdeithasol

Don Touhig AS

Is-ysgrifennydd Seneddol, Swyddfa Cymru

Vikki Thomas

Swyddfa Cymru

Paul Williams

Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg ac awdur 'A Question of Balance'

Swyddogion yn bresennol

Dr Ruth Hall

Prif Swyddog Meddygol

Ann Lloyd

Cyfarwyddwr, y GIG yng Nghymru

John Hill-Tout

Is-adran Rheoli Perfformiad y GIG

Bob Oliver

Tîm Cymorth Canolog GIG Cymru

Helen Thomas

Cyfarwyddwr, yr Adran Polisi Cymdeithasol

Graham Williams

Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Ysgrifenyddiaeth:

Jane Westlake

Clerc y Pwyllgor

Claire Morris

Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Peter Jones

Cwmsler y Pwyllgorau

Eitem 1: Ymddiheuriadau ac eilyddion

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Atgoffwyd aelodau o'r gofyniad, dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiant cyn cymryd rhan mewn trafodion. Ni wnaed unrhyw ddatganiad.

Eitem 2: Adroddiad Misol y Gweinidog (9.05 - 9.55am)

Papur: HSS-19-02(p.1)

2.1 Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau Aelodau ar yr adroddiad misol, gwnaeth y Gweinidog a'i swyddogion y pwyntiau a ganlyn

Rhan 1: Materion Strategaeth

- Ymateb cyfyngedig a gafwyd i'r hysbyseb gychwynnol ar gyfer swydd Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol. Roedd y Gweinidog wedi bod yn trafod ag aelodau Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (GPC) y Gymdeithas Feddygol Brydeinig a'r byrddau iechyd lleol (LHB) ac i bob golwg byddai gan lawer o feddygon teulu ddiddordeb yn y swydd pe bai modd iddynt gadw cysylltiad â'r practis. Felly roedd y swydd yn cael ei hailhysbysebu gydag amodau mwy hyblyg.
- Ers cyhoeddi'r adroddiad misol roedd pum Prif Weithredwr arall wedi'u penodi ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol, gan ddod â'r cyfanswm i 17.
- Roedd Derek Griffin, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi llwyddo i gael swydd Cyfarwyddwr Rhanbarthol y Gogledd.
- Roedd ceisiadau mewnol am swyddi Cyfarwyddwyr Meddygol Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu hasesu ac roedd rhai cyfweiliadau wedi cael eu cynnal. Os na fyddai ceisiadau addas, yna byddai ymarfer recriwtio allanol yn cael ei gynnal.
- Ni fyddai swyddi Cyfarwyddwyr Meddygol o reidrwydd yn swyddi llawn amser. Byddai gofynion pob swydd yn cael eu hasesu'n unigol. Byddai'r newyddion diweddaraf yn ymddangos yn yr adroddiad misol nesaf.
- Byddai gwybodaeth am nifer y sesiynau y byddai pob Cyfarwyddwr Meddygol Bwrdd Iechyd Lleol yn eu gweithio ar gael i'r cyhoedd.

Rhan 2: Perfformiad y GIG

- Byddai wardiau ac amgylchedd plant yn cael eu cynnwys wrth i'r Timau Amgylchedd Cleifion Ysbytai gynnal eu hasesiadau.
- Roedd mentrau i fynd i'r afael â thwyll presgripsiynau bellach yn canolbwyntio ar bobl sy'n rhoi presgripsiynau yn hytrach nag ar gleifion, er bod angen sicrhau bod cleifion yn manteisio ar yr holl eithriadau yr oedd ganddynt hawl iddynt a ddim yn hawlio pan nad oes ganddynt hawl i gael eu heithrio.
- Cyfrifoldeb Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau, fel Swyddogion Cyfrifo, oedd monitro faint o amser a chyfleusterau a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer practisau preifat gan ymgynghorwyr a oedd yn cael eu cyflogi ganddynt.

Rhan 3: Gwella Iechyd a Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau

- Byddai'r Strategaeth Maetheg a'r Cynllun Gweithredu Ffyrdd Iach a Gweithgar o Fyw yn cael eu lansio yn y Flwyddyn Newydd. Roedd cysylltiadau clòs rhwng y rhain a mentrau eraill.
- Byddai'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd yn parhau, yn unol â'r argymhelliad yn adroddiad yr

Athro Townsend "Tackling Inequalities in Health".

- Roedd arian wedi cael ei roi i brynu sganiwr esgyrn (sganiwr dexa) ar gyfer y Gogledd fel rhan o'r broses gaffael ganolog i ddisodli'r hen offer lluniau diagnostig.
- Byddai adroddiad yr Asiantaeth ar gyfer Sylweddau Gwenwynig a'r Gofrestrfa Clefydau (ATSDR) ar sut orau y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru, ei phartneriaethau a'r gymuned leol ddatblygu'r argymhellion sy'n ymwneud ag iechyd yn archwiliad Nantygwyddon ar gael cyn y Nadolig. Bwriedir i'r Pwyllgor gwrdd ar 16 Ionawr i drafod y canfyddiadau.
- Byddai papur i'w nodi yn cael ei ddarparu ar yr achos tybiedig o'r gynddaredd yn yr Alban.
- Byddai adroddiadau ar gyflwyno'r rhaglen sgrinio retinopathi diabetig yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad misol wrth i'r rhaglen ddatblygu.

Rhan 5: Gofal Cymdeithasol

- Roedd Cod Rhieni yn cael ei ddatblygu i fynd i'r afael ag ystod eang o faterion ac ymddygiad sy'n gysylltiedig â rhianta positif, nid yn unig cosbi plant yn gorfforol.
- Roedd grwp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i weithredu egwyddorion cyffredinol y polisi chwarae ac i ddatblygu strategaeth fanylach.
- Nodwyd pryderon aelodau am yr Adolygiad Grant Arbennig. Byddai papur yn cael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor unwaith y byddai'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried yn llawn.
- Byddai copi o ymateb y Gweinidog i gwestiwn ysgrifenedig David Melding ynghylch penderfyniad y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth yn Belfast ar 23 Mai ar gomisiynu gwasanaethau gofal gan awdurdodau lleol yn cael ei ddsbarthu.

Rhan 6: Y Sector Gwirfoddol/Gwirfoddoli

- Byddai papur i'w nodi yn cael ei ddarparu ar gapasiti maethu a'r gwahaniaethau o ran arferion ledled Cymru.

Rhan 7: Y Sefyllfa Ariannol

- Roedd £10.5m wedi'i neilltuo ar gyfer 2002-03 fel bod awdurdodau iechyd yn gallu ymdopi â chostau a phwysau datblygu gan gynnwys canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) ar roi presgripsiynau. Cydnabuwyd y byddai gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefyd Coronaidd y Galon yn golygu y byddai angen arian ychwanegol ar gyfer y cyffuriau priodol a byddai hyn yn cael ei gydnabod yng nghyllideb y flwyddyn wedyn.
- Byddai diffygion unrhyw awdurdod iechyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael eu trosglwyddo i'r cyrff newydd. Roedd cynlluniau adfer ariannol yn cael eu datblygu gyda'r Ymddiriedolaethau hynny dan y pwysau mwyaf.

Rhan 8: Y Rhaglen Is-ddeddfwriaeth

- Roedd awgrymiadau y dylai'r Pwyllgor archwilio'r rheoliadau sy'n ymwneud â bwyd sydd wedi'i addasu'n enetig a labelu, a'r rheini sy'n dod dan y Ddeddf Cymorth Cenedlaethol.

2.2 Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar yr Adolygiad Cynhwysfawr ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru i'w gynnal gan Derek Wanless. Mae copi wedi'i amgáu yn Atodiad A.

Gweithredu

- Y diweddaraf ar recriwtio Cyfarwyddwyr Meddygol Byrddau Iechyd Lleol i'w cynnwys yn yr adroddiad misol nesaf.
- Papur i'w nodi i gael ei ddarparu ar y cefndir i'r achos tybiedig o'r gynddaredd yn yr Alban.
- Adroddiadau ar hynt y gwaith o gyflwyno'r rhaglen sgrinio diabetes i'w cynnwys yn yr adroddiad misol wrth i'r rhaglen ddatblygu.
- Trafodaeth ar yr Adolygiad Grant Arbennig i'w chynnwys ym mlaenraglen waith y Pwyllgor.
- Ymateb y Gweinidog i gwestiwn ysgrifenedig David Melding ynghylch penderfyniad y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth i'w ddsbarthu.
- Papur i'w nodi i gael ei ddarparu ar gapasiti maethu a'r gwahaniaethau o ran arferion ledled Cymru.
- Llefarydd y blaid i nodi eitemau is-ddeddfwriaeth arfaethedig i'r Pwyllgor eu harchwilio.

Eitem 3: Y diweddaraf ar y camau i leihau amseroedd aros ysbytai a'r pwysau ar y GIG (9.55 - 11.05am)

Papur: HSS-20-02(p.2)

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Paul Williams, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg ac awdur 'A Question of Balance' – yr adolygiad ar gapasiti yn y GIG yng Nghymru; a Hugh Gardner o'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.2 Atgoffodd y Gweinidog y Pwyllgor o'r buddsoddiad a'r mentrau yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cyflwyno er 1999 a'r gwelliannau a oedd wedi eu gwneud. Roedd 'A Question of Balance' yn diweddarau'r wybodaeth honno. Roedd y materion yn gymhleth ac nid oedd modd mynd i'r afael â hwy ar eu pennau eu hunain ond yn hytrach fel rhan o sytem gyfan.

3.3 Cyflwynodd Paul Williams ei adroddiad, a oedd yn dilyn Adroddiad y Gweithgor Capasiti a gyhoeddwyd yn 2000. Dyma oedd prif themâu'r adroddiad:

- Yr angen i fynd i'r afael â'r mater ar draws yr holl system er mwyn ymdopi â'r galw a'r tensiynau rhwng gwaith dewisol a gwaith brys.

- Roedd angen i bob sector weithio'n fwy effeithlon fel na na fyddai pobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty heb fod angen ac er mwyn mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal.
- Dylai materion sy'n ymwneud â'r gweithlu gael eu hystyried a dylid datblygu ffyrdd newydd o weithio.
- Dylai arferion da gael eu rhannu a'u cyflwyno.

3.4 Mewn ymateb i sylwadau Aelodau, gwnaeth Paul Williams y pwyntiau a ganlyn:

- Argymhellwyd mai 85% o welyau ddylai fod yn llawn. Mewn rhai ysbytai, roedd 98% o welyau meddygol yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.
- Nid cynyddu nifer y gwelyau oedd yr ateb, yn syml; nid oedd ar bob ysbyty angen gwelyau ychwanegol. Roedd nifer o ffyrdd eraill o ddefnyddio'r gwelyau a oedd ar gael yn fwy effeithlon, er enghraifft lleihau nifer y cleifion mewn gwelyau sy'n aros am brofion neu gyffuriau, a gwella cyfraddau llawdriniaethau dydd.
- Roedd yr adroddiad yn argymhell y dylai pob bwrdd iechyd lleol weithio gyda'i ymddiriedolaethau a'r awdurdod lleol i nodi ym mha feysydd y ceir y problemau mwyaf a sianelu adnoddau er mwyn sicrhau system fwy cytbwys.
- Roedd problemau yng Ngwent yn enwedig gyda llawdriniaethau orthopedig. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn edrych am atebion strategol megis cael 'uned oer' ar gyfer llawdriniaethau orthopedig dewisol, gan mai trawma difrifol a gâi flaenoriaeth fel arall.
- I bob golwg, roedd ysbytai mawr yn gweithio ar eu pennau eu hunain ac nid oeddent yn cydnabod y rôl allweddol y gallai ysbytai cymunedol ei chwarae. Dylai ymddiriedolaethau gynllunio sut maent yn defnyddio eu stoc welyau a'r adnoddau sydd ar gael yn y gymuned er mwyn cynnig i gleifion atebion effeithiol i broblemau gofal.
- Roedd gan ysbytai cymunedol nifer uchel o welyau ar gyfer meddygon teulu ac roedd arnynt angen polisïau gweithredol er mwyn gweithio gyda meddygon teulu i ddefnyddio'r rhain yn fwy effeithiol.
- Roedd angen targedau, ond dylai ymddiriedolaethau gael eu grymuso i'w cyrraedd yn y ffordd fwyaf priodol i'w hamgylchiadau.

3.5 Dywedodd Hugh Gardner fod problem hefyd o ran oedi wrth gychwyn gofal, a oedd yn golygu bod nifer fawr o bobl â'u gofal yn cael ei reoli gan awdurdodau lleol. Roedd yn cydnabod bod problemau o ran cael gofal cymdeithasol y tu allan i oriau a oedd yn golygu bod pobl yn cael eu derbyn i ysbytai heb fod angen. Dywedodd fod y sefyllfa'n cael ei chymhlethu fwyfwy oherwydd ansefydlogrwydd y sector cartrefi preswyl a gofal cartref. Yn aml roedd lefelau tâl y sector hwn ychydig yn uwch na'r isafswm cyflog ac roedd cystadleuaeth o du cyflogwyr masnachol yn ei gwneud yn anos recriwtio. Roedd gofalyr anffurfiol yn hanfodol i hyfywedd gofal cartref. Roedd angen cydnabod eu cyfraniad ac roedd angen eu cefnogi.

3.6 Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau a ganlyn:

- Roedd asesiad cymhleth a thrylwyr o oedi wrth drosglwyddo gofal yn cael ei gynnal.

- Roedd gan Gymru ganran uwch o hen bobl nag unrhyw ran arall o'r DU. Roedd hyn yn effeithio'n fawr ar y galw am wasanaethau.
- Nid oedd ystadegau gweithgarwch ond yn cynnwys gweithgarwch ymgynghorwyr ac nid yr ystod eang o wasanaethau a gâi eu darparu gan ymarferwyr arbenigol i reoli amseroedd aros a galw.
- Roedd £17m wedi'i neilltuo yn 2002-03 i awdurdoau lleol yn uniongyrchol i helpu i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal a chefnogi'r sector cartrefi gofal. O hyn, roedd £7.6m yn cael ei wario i wella'r ffioedd a delir i'r sector cartrefi gofal annibynnol. Roedd y gweddill yn cael ei ddefnyddio i gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain.
- Roedd y Grwp Adolygu Strategaeth Gofal yn ystyried y gwaith o gomisiynu gofal.

3.7 Ymhlith y pwyntiau eraill a wnaed gan aelodau yr oedd:

- Roedd angen gwella gwasanaethau iechyd yn y gymuned fel na fyddai angen derbyn pobl i ysbytai. Dylai meddygon teulu allu cysylltu ag ymgynghorwyr dros y ffôn neu drwy ryw ffordd arall ar adegau penodol.
- Roedd canslo llawdriniaethau dewisol yn fwy costus i'r economi.
- Dylai amseroedd aros gael eu cyfrif o'r adeg y mae cleifion yn cysylltu â'u meddyg teulu.
- Roedd angen hyrwyddo gyrfa ym maes gwaith cymdeithasol fel gyrfa ymestynnol a gwerth chweil, a dylai'r sector gofal gael ei werthfawrogi a'i dalu'n well.

3.8 Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor ymweld â sefydliad sy'n ymwneud â datblygu atebion telegofal yn Swydd Efrog.

3.9 Diolchodd y Cadeirydd i Paul Williams a Hugh Gardner am ddod.

Eitem 4: Cynigion y Llywodraeth ar gyfer Newidiadau i'r Mesur Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) drafft yn dilyn archwiliad cyn-ddeddfwriaethol (11.20 - 12.05pm)

Papur: HSS-20-02(p.3)

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Don Touhig, AS, Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru.

4.2 Dywedodd Gweinidog y Cynulliad fod y broses archwilio cyn-ddeddfwriaethol wedi bod yn llwyddiannus gyda'r Cynulliad a San Steffan yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Roedd y Mesur drafft wedi cael llawer o gefnogaeth. Roedd Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud darpariaeth i roi arian ychwanegol i Gynghorau Iechyd Cymuned o'r flwyddyn nesaf er mwyn talu'r costau sydd ynghlwm wrth gryfhau eu rôl.

4.3 Diolchodd Don Touhig i'r Pwyllgor am y cyfle i ddod yn ôl a thrafod yr hyn a oedd bellach yn cael

ei alw'n Mesur Iechyd (Cymru) a'r archwiliad cyn-ddeddfwriaethol. Diolchodd hefyd i'r Gweinidog am ei gwaith yn datblygu'r Mesur. Roedd y Mesur wedi'i gyflwyno i Dy'r Cyffredin ar gyfer y darlleniad cyntaf ar 14 Tachwedd; byddai'r ail darlleniad ar 27 Tachwedd gyda Peter Hain, yr Ysgrifennydd Gwladol, yn arwain y drafodaeth. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r gwrthbleidiau i weld pryd fyddai'n cyrraedd y Pwyllgor. Wedyn, byddai Adroddiad gan y Pwyllgor a thrydydd darlleniad yn Nhy'r Cyffredin, cyn ei gyflwyno gerbron Ty'r Arglwyddi. Dywedodd ei fod y credu bod y broses archwilio cyn-ddeddfwriaethol wedi gweithio'n dda ac roedd yn falch fod y dull wedi cael ei gymeradwyo gan Brif Chwip y Llywodraeth yn Nhy'r Arglwyddi, Arweinydd Ty'r Arglwyddi ac Arweinydd Ty'r Cyffredin fel model ar gyfer Mesurau yn y dyfodol.

4.3 Mewn ymateb i sawl pwynt mwy manwl, sicrhaodd y Gweinidog y Pwyllgor y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn drafftio'r is-ddeddfwriaeth fanwl a fyddai'n rhoi grym i'r Mesur.

4.4 Gofynnodd y Cadeirydd i Peter Jones, Cwnsler y Pwyllgor, roi cyngor ar a fyddai Atodlen 7a fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd yn caniatáu i'r Cynulliad gyfarwyddo bod yn rhaid i'r Cyngor Iechyd Cymuned perthnasol ymgynghori â'r cyhoedd cyn gwneud unrhyw ad-drefnu sylweddol. Addawodd Don Touhig hefyd y byddai'n egluro'r pwynt hwn cyn i'r Mesur gyrraedd y Pwyllgor yn Nhy'r Cyffredin.

4.5 Diolchodd y Cadeirydd i Don Touhig am ddod a dywedodd ei bod yn gobeithio y byddai mwy o gyfleoedd i weithio gyda chydweithwyr yn y senedd wrth gynllunio'r dyfodol ar gyfer pobl Cymru.

Gweithredu

- Peter Jones i roi cyngor ar ddarpariaethau Atodlen 7a cyn fod y Mesur yn dod gerbron y Pwyllgor yn Nhy'r Cyffredin.

Eitem 5: Cofnodion 6 Tachwedd 2002 (12.05 - 12.10pm)

Papur: HSS-19-02(min)

5.1 Cytunwyd ar gofnodion 6 Tachwedd. Nid oedd unrhyw fater yn codi.

Eitem 6: Papur i'w Nodi – Estyn Addysg Feddygol

Papur: HSS-20-02(p.4)

6.1 Roedd y Gweinidog yn disgwyl yr achos busnes ar gyfer Ysgol Glinigol y Gogledd. Cadarnhaodd y byddai'r arian ar gyfer yr ysgol ar gael o Ebrill 2003.

Eitem 7: Unrhyw Fater Arall

7.1 Dywedodd y Cadeirydd wrth Aelodau eu bod wedi cael gwahoddiad gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i fynychu sesiwn briffio anffurfiol ar effeithiau'r amgylchedd ar iechyd pobl. Gofynnwyd i Aelodau roi gwybod i'r Clerc os hoffent fod yn bresennol.

7.2 Cytunodd Aelodau, ar yr amod bod y Pwyllgor Busnes yn cytuno, y byddai cyfarfod ychwanegol yn cael ei gynnal brynhawn 16 Ionawr, lle byddent yn derbyn adroddiad yr Asiantaeth ar gyfer Sylweddau Gwenwynig a'r Gofrestrfa Clefydau (ATSDR) ar sut y dylid mynd i'r afael â'r argymhellion sy'n ymwneud ag iechyd yn ymchwiliad Nantygwyddon. Byddai'r Clerc yn gofyn am ganiatâd y Pwyllgor Busnes.

Gweithredu

- Y Clerc i ofyn am ganiatâd y Pwyllgor Busnes i gynnal cyfarfod ychwanegol ar 16 Ionawr.

Atodiad A

ADOLYGIAD AR OFAL IECHYD A CHYMDEITHASOL YNG NGHYMRU

Rwy'n falch o gael croesawu'r Cylch Gorchwyl sydd wedi'i gyhoeddi heddiw ar gyfer yr Adolygiad Cynhwysfawr ar Ofal Iechyd a Chymdeithasol yng Nghymru. Bydd Mr Derek Wanless, awdur adroddiad cynhwysfawr i'r Canghellor ar ddyfodol y GIG, ar wahoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithredu fel cynghorydd i'r Adolygiad.

Cyhoeddwyd yr Adolygiad gan Weinidog Cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 15 Hydref 2002 law yn llaw â chynnydd sylweddol yn y gyllideb iechyd. Roedd cyswllt clir rhwng buddsoddiad a pherfformiad gwell a moderneiddio gofal iechyd a chymdeithasol yng Nghymru. Bydd yr Adolygiad yn ystyried sut y gellir sicrhau bod adnoddau gofal iechyd a chymdeithasol yn arwain at newid a gwell perfformiad, gan ddefnyddio adroddiad Mr Wanless i'r Canghellor fel man cychwyn, a chan gymryd i ystyriaeth yr adnoddau ychwanegol ar gyfer iechyd a'r strwythurau newydd o fewn y GIG yng Nghymru.

Bydd yr Adolygiad yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn hwyr yn y gwanwyn 2003; bydd yn nodi sut mae gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau ariannol ac adnoddau eraill er mwyn cynnal gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol yng Nghymru dros y 10 mlynedd nesaf. Bydd yr Adolygiad hefyd yn tanlinellu'r gofynion o ran dangosyddion perfformiad a gwybodaeth er mwyn monitro'n effeithiol y ffordd y caiff gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol eu darparu.

Rwy'n falch iawn bod Derek Wanless wedi cytuno i fod yn gynghorydd i'r Adolygiad pwysig hwn. Mae'r Cylch Gorchwyl yn dangos bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi yn nyfodol gwasanaethau cyhoeddus modern yng Nghymru. Bydd yr Adolygiad yn gwneud argymhellion ar y cyfeiriad sydd ei angen er mwyn sicrhau bod buddsoddiad yn canolbwyntio ar wella perfformiad ar draws y system gofal iechyd a chymdeithasol, ynghyd â darparu gwasanaethau modern, integredig ac effeithiol i bobl Cymru.

Ar 15 Hydref 2002, cyhoeddodd Gweinidog Cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnydd sylweddol yn y gyllideb iechyd. Dywedodd yn glir ar yr un pryd y byddai angen i'r adnoddau hyn gael eu defnyddio i wella perfformiad a moderneiddio gofal iechyd a chymdeithasol yng Nghymru.

Mae Mr Derek Wanless, awdur adroddiad cynhwysfawr i'r Canghellor ar ddyfodol y GIG, wedi cael gwahoddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fod yn gynghorydd i adolygiad ar ofal iechyd a chymdeithasol yng Nghymru. Bydd yr adolygiad yn edrych ar sut y gall adnoddau ar gyfer gofal iechyd a chymdeithasol arwain at newid a gwell perfformiad, gan gymryd adolygiad Wanless fel man cychwyn a chan gymryd i ystyriaeth yr adnoddau ychwanegol ar gyfer iechyd a strwythur newydd GIG Cymru.

BRÏFF Y PROSIECT

Nod cyffredinol yr adolygiad yw gweld sut y gall adnoddau ar gyfer gofal iechyd a chymdeithasol yng Nghymru arwain at newid a gwell perfformiad. Bydd angen i'r adolygiad ystyried y meysydd a ganlyn a gwneud argymhellion:

- Y materion sydd ar hyn o bryd yn amharu ar y defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau;
- Y defnydd o adnoddau (cyfalaf, refeniw a dynol) er mwyn gwella safon gwasanaethau'r GIG a sectorau perthnasol y gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn sylweddol;
- Sut y gall systemau gofal iechyd a chymdeithasol weithio mewn ffordd integredig i sicrhau'r perfformiad gorau a'r defnydd gorau o adnoddau;
- Effeithiolrwydd y prosesau cymryd penderfyniadau ac atebolrwydd ym meysydd gofal iechyd a chymdeithasol yng Nghymru;
- Ffactorau sy'n cyfrannu at lwyddiant a'r angen am fuddsoddiad tymor hir;

Ffrwyth yr Adolygiad

Ffrwyth yr adolygiad fydd adroddiad i'r Gweinidog Cyllid yn cynghori sut mae gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau ariannol i ddarparu a chynnal gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol ar gyfer pobl Cymru dros y 10 mlynedd nesaf. Bydd yr adroddiad hefyd yn tanlinellu'r gofynion o ran dangosyddion perfformiad a gwybodaeth er mwyn monitro'n effeithiol y ffordd y caiff gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol eu darparu.

Dulliau gweithio

Ni fydd ymchwil gynradd yn cael ei gwneud na data yn cael ei gasglu, yn hytrach bydd y prosiect yn adolygu'r wybodaeth a'r ymchwil sydd ar gael.

Bydd angen i'r adolygiad ystyried y ffordd y caiff adnoddau eu dyrannu ar hyn o bryd a'r gwerth sy'n cael eu sicrhau o'i gymharu â'r gwariant. Bydd mesurau a dangosyddion perfformiad yn rhan bwysig o'r materion sydd i'w hystyried, a sefydlu cymhellion i ysgogi arferion gorau. Bydd Derek Wanless yn rhoi cyngor i'r adolygiad wrth ystyried y materion hyn a dod i gasgliadau a gwneud argymhellion. Bydd Mr Wanless yn cymryd tystiolaeth gan fudd-ddeiliaid allweddol gan ganolbwyntio ar gasglu tystiolaeth o arferion gorau a'r hyn sy'n gweithio.

Ymgynghori

Bydd yr adolygiad yn cymryd tystiolaeth ysgrifenedig gan fudd-ddeiliaid allweddol ym maes gofal iechyd a chymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys:

- Y GIG;
- Llywodraeth leol;
- Grwpiau cleifion;
- Y sector gwirfoddol;
- Gofal cymdeithasol;
- Staff a chyrff proffesiynol;
- Academyddion;

Amserlen

Bydd y prosiect yn adrodd yn hwyr yn ystod gwanwyn 2003.

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU TACHWEDD 2002